

Newid ac amrywiaeth mewn Cymraeg cyfoes

David Willis

Adran Ieithyddiaeth Ddamcaniaethol a Chymhwysol, Prifysgol Caergrawnt

1 CYFLWYNIAD

Mae astudiaethau o amrywiaeth dafodieithol dros y 150 mlynedd diwethaf wastad wedi canolbwyntio ar wahaniaethau mewn geirfa a ffonoleg, yng Nghymru ac yng ngwledydd eraill fel ei gilydd. Gellid cyfiawnhau'r blaenoriaethau hyn yn ystod blynyddoedd cynnar yr 20fed ganrif, ond, a'n dealltwriaeth o egwyddorion cystrawen wedi gwella'n sylweddol o'r 1960au ymlaen, mae diddordeb mewn cystrawen tafodieithoedd ac mewn amrywiaeth gystrawennol wedi cynyddu'n gyffredinol yn ddiweddar. Ar yr un pryd, mae ffocws y maes wedi symud o iaith lafar y siaradwyr mwyaf traddodiadol a cheidwadol i gwmpasu'r holl gymuned ieithyddol fel rhan o ymgais i ddeall mecanwaith newid ieithyddol. Mae'r papur hwn yn disgrifio gwaith prosiect Atlas Cystrawen Tafodieithoedd y Gymraeg yn erbyn cefndir datblygiadau o'r fath yn y maes. Fel enghraifft o strwythur ieithyddol lle gallai defnydd llawnach o ddata o'r tafodieithoedd arwain at ddealltwriaeth well o egwyddorion cystrawen a phrosesau newid ieithyddol, byddwn yn ystyried dosbarthiad daearyddol y gwahanol batrymau cystrawennol a geir gyda'r ferf *cau*, fel mae'n digwydd mewn tafodieithoedd gogleddol y Gymraeg gyda'r ystyr moddol 'ddim eisiau' mewn brawddegau fel *Mae'r drws cau agor* gyda'r ystyr 'Wnaiff y drws ddim agor'.

2 ASTUDIO AMRYWIAETH GYSTRAWENNOL

Er bod hanes tafodieithog y Gymraeg yn arwain yn ôl mor bell ag astudiaeth seinegol gan Henry Sweet ar iaith Gwynant, Gwynedd ('Spoken North Welsh') yn niwedd y 19eg ganrif (Sweet 1884), mae ymchwilwyr yn y maes wastad wedi canolbwyntio ar gwestiynau seinegol a geirfaol. Yn ystod y 20fed ganrif gwelwyd ffrwd o astudiaethau manwl ar dafodieithoedd arbennig, gyda'r pwyslais ar dafodieithoedd yn y Cymoedd oedd mewn perygl o ddiiflannu yn wyneb twf y Saesneg yno, er enghraifft, astudiaethau Phillips (1955) a Ceinwen Thomas (1993) (am arolwg, gweler Jones, 1986). Roedd diddordeb yng nghystrawen y tafodieithoedd yn fregus drwy'r cyfnod hwnnw, yng Nghymru ac mewn gwledydd eraill fel ei gilydd. Er i dimau mewn nifer o wledydd gwblhau prosiectau i greu atlasau yn cofnodi amrywiaeth mewn seineg a geirfa, megis yr *Atlas linguistique de la France* (Gilliéron a Edmont, 1902–9) neu'r *Deutscher Sprachatlas* (Wenker et al., 1926–56), nid oedd yn amlwg sut i addasu'r holiaduron tafodieithol a ddefnyddiwyd yn yr astudiaethau hynny at gasglu data ar

frawddegau cyfan. Nid oedd y twf enfawr mewn ymchwil ar gystrawen yn sgil y chwyldro Chomskyaidd mewn ieithyddiaeth gyffredinol o ddechrau'r 1960au ymlaen wedi cael effaith sylweddol ym myd tafodieitheg. Nid oedd ein dealltwriaeth o sut mae patrymau cystrawennol newydd yn ymddangos ac yn lledu'n ddaearyddol wedi datblygu'n ddigon pell i lunio cwestiynau ymchwil diddorol yn y maes.

Serch hynny, mae nifer o'r astudiaethau ar dafodieithoedd Cymru'r 20fed ganrif yn cynnwys gwaith gwerthfawr ar gystrawen y tafodieithoedd. Ymysg y mwyaf defnyddiol mae *The Welsh vocabulary of the Bangor district* (Fynes-Clinton, 1913), *A glossary of the Demetian dialect of north Pembrokeshire* (Morris, 1910) a *Studies in Cyfeiliog Welsh* (Sommerfelt, 1925). Ond ar y cyfan, mae sefyllfa cystrawen fel pwnc yn eilradd i'r brif orchwyl disgrifiadol o fapio lle mae un sain neu ynganiad yn ildio i'r llall neu ym mha ardaloedd y defnyddid term amaethyddol penodol yn draddodiadol.

Prif ddiddordeb y math hwn ar ymchwil ledled Ewrop a'r Unol Daleithiau oedd cofnodi ffurfiau ar lafar oedd yn prysur ddiflannu yn sgil diwylliannu, mudo i'r dinasoedd a chyflwyniad sustemau addysg gynhwysfawr. Er ei bod yn amlwg bod ieithoedd yn newid yn gyson, edrychid ar y tafodieithoedd fel pethau digyfnewid i'w gwarchod ac i'w cofnodi yn eu ffurf gynhenid buraf. Cyfyngwyd yr astudiaethau felly i'r genhedlaeth hŷn, yn enwedig pobl oedd wedi aros yn yr un lle drwy gydol eu hoes ac a oedd, felly, yn adlewyrchu ffurf fwyaf ceidwadol y dafodiaith cyn iddi gael ei llygru gan ddylanwadau allanol. Mor ddiweddar â'r 1960au a'r 1970au, dyna oedd agwedd y *Survey of English dialects* (Orton, 1962–71) a'r *Linguistic geography of Wales* (A. Thomas, 1973). Ond, erbyn y 1960au, roedd yr agwedd hon yn hollol afrealistig dros rannau helaeth o'r byd gorllewinol: roedd mwyafrif llethol poblogaeth gwledydd megis yr Unol Daleithiau a Phrydain yn byw mewn ardaloedd trefol ac roedd llawer ohonynt yn symud o un lle i'r llall mwy nag unwaith yn ystod eu hoes. Dan yr amgylchiadau hynny, roedd yn amlwg bod amrywiaeth ieithyddol yn adlewyrchu ffactorau cymdeithasol eraill yn ogystal â daearyddiaeth. Dangosodd gwaith William Labov yn Ninas Efrog Newydd (Labov, 1978 [1972]), ac, ym Mhrydain, gwaith Peter Trudgill yn Norwich (Trudgill, 1974) bod rhannau helaeth o'r amrywiaeth ieithyddol a geir mewn dinasoedd i'w briodoli i ffactorau megis dosbarth cymdeithasol a rhyw. Drwy astudiaethau o'r fath, gellid hefyd gweld amrywiaeth o ran oedran, a drwy hynny dilyn ffurf newydd yn lledu drwy'r boblogaeth fel mae cenhedlaeth newydd yn disodli'r genhedlaeth hŷn. I ymchwilio'r patrymau a'r prosesau hyn, roedd angen ehangu dewis yr ieithydd a chynnwys ystod ehangach o bobl mewn astudiaethau ieithyddol. Yn naturiol iawn, trodd canolbwynt y pwnc

oddi wrth amrywiaeth ddaearyddol a thafodieitheg tuag at agweddau eraill ar amrywiaeth gymdeithasol mewn iaith.

Gyda'r ffocws newydd hwn, gallai astudio amrywiaeth gyfrannu at ddatrys cwestiynau damcaniaethol mewn ieithyddiaeth hanesyddol, yn anad dim, sut mae newidiad seinegol yn lledu drwy gymuned, ond nid oedd yn hawdd ei addasu i ofyn cwestiynau tebyg ar newid mewn cystrawen. Sustem o reolau yw cystrawen, ac nid yw'n hawdd pennu pa sustem o reolau sydd gan siaradwr unigol drwy eu recordio yn siarad yn naturiol.

Yn wir, tan y 1990au, roedd wastad wedi bod yn haws i weld sut y gallai ymchwil ar amrywiaeth seineg wneud cyfraniad i ieithyddiaeth gyffredinol na sut y gallai ymchwil ar amrywiaeth gystrawennol wneud yr un peth. Ymysg ieithyddion hanesyddol roedd patrymau daearyddol wrth wraidd ymdrechion yn y 19eg ganrif i esbonio sut a pham bod ieithoedd yn newid. Cwestiwn pwysig o'r dyddiau cynnar ymlaen oedd natur newid seinegol, yn enwedig, dilysrwydd damcaniaeth y Neoramadegwyr, grŵp o ieithegwyr ifainc a sefydlwyd yn Leipzig yn y 1870au, bod seiniau'n newid yn rheolaidd; hynny yw, bod sain benodol yn newid yn yr un ffordd ym mhob gair lle mae'n digwydd yn yr un cyd-destun seinegol mewn iaith benodol ar adeg benodol (Osthoff a Brugmann, 1878: xiii). Dyfeisiwyd y ddamcaniaeth hon ar sail cyfatebiaethau seinegol oedd yn cysylltu ieithoedd cynnar y teulu Indo-Ewropeaidd megis Lladin, Hen Roeg, Sansgrit, Hen Uchel Almaeneg, Hen Wyddeleg ac ati. Yn yr ieithoedd hyn, roedd seiniau mewn cyd-destun arbennig yn cyfateb yn rheolaidd i sain benodol mewn pob iaith arall o'r grŵp. Er enghraifft, mae /p/ mewn Lladin yn cyfateb yn rheolaidd i /f/ yn yr ieithoedd Germanaidd, megis Saesneg, mewn geiriau cytras fel Lladin *pater* : Saesneg *father*; Lladin *pes* : Saesneg *foot*; Lladin *plenus* : Saesneg *full*. Yr unig ffordd i esbonio hyn, yn ôl y Neoramadegwyr, oedd awgrymu bod sain yn y gyniaith Indo-Ewropeaidd (/p/ yn yr achos hwn) wedi newid yn yr un ffordd ym mhob gair: roedd pob /p/ yn y gyniaith wedi troi'n /f/ mewn Germaneg ('Deddf Grimm'). I ieithyddion oedd yn gwrthod syniadau'r Neoramadegwyr, roedd ymchwil ar dafodieithoedd, a'r atlasau yn arbennig, yn cynnig cyfle i gasglu data fyddai'n herio eu prif ddamcaniaeth: pe bai modd dod o hyd i dafodiaith lle roedd sain wedi newid mewn rhai geiriau ond wedi aros yr un mewn geiriau eraill gyda'r un cyd-destun seinegol, byddai hynny'n cynnig tystiolaeth yn erbyn prif ddaliad y Neoramadegwyr.

Tra oedd astudiaethau o ddosbarthiad daearyddol seiniau yn gallu bod o ddiddordeb cyffredinol felly, doedd dim ffordd debyg i ddefnyddio data ar amrywiaeth mewn cystrawen, hyd yn oed pe bai wedi bod ar gael ar y pryd, a doedd dim modd i ddefnyddio data ar gystrawen tafodieithoedd i ddeall sut mae cystrawen yn newid. Dyna reswm arall felly am ddiffyg diddordeb mewn cystrawen tafodieithoedd ar y pryd.

Gwelwyd cynnydd enfawr mewn cystrawen fel pwnc o fewn ieithyddiaeth gyffredinol o flynyddoedd cynnar y 1960au hyd y 1980au. Serch hynny, nid oedd amrywiaeth yn rhan ganolog o'r gwaith yn y cyfnod hwnnw, ac nid arweiniodd y gwaith hwn at ragor o ddiddordeb mewn cystrawen tafodieithoedd yn y tymor byr. Mae ieithyddion sy'n gweithio yn y traddodiad Chomskyaidd yn awgrymu bod pob unigolyn yn meddu ar sustem ieithyddol unigryw. Roedd ffigyrau blaenllaw cynnar y traddodiad ieithyddiaeth gymdeithasol yn rhannu'r safbwynt hwn hefyd, megis Weinreich, Labov a Herzog (1968: 105), sy'n casglu y dylid 'distinguish as many languages as there are individuals'. Mae'r ffaith ein bod ni'n deall ein gilydd ac yn teimlo ein bod ni'n siarad ieithoedd penodol i'w briodoli i'r ffaith bod y sustemau ieithyddol hynny yn tueddu i fod yn debyg iawn i'w gilydd. Mae plentyn yn dysgu (caffael) ei iaith frodorol (neu ieithoedd brodorol) drwy glywed enghreifftiau o'r iaith honno a'u dadansoddi (yn isymwybodol) i greu rhestr o eiriau a'u nodweddion (geirfa) a sustem o reolau (gramadeg). Os yw'r plentyn yn llwyddo i gyfathrebu, mae'r broses o gaffael iaith wedi bod yn llwyddiannus, er nad yw geirfa a gramadeg pob unigolyn yn cyfateb i'w gilydd yn fanwl. Mewn theori o leiaf felly, dylai fod modd astudio'r gwahaniaethau hynny.

Ymysg ffigyrau arloesol ieithyddiaeth hanesyddol y 19eg ganrif, Hermann Paul oedd y cyntaf i weld rhan allweddol plant mewn newid cystrawennol. Yn ei waith *Prinzipien der Sprachgeschichte* ('Egwyddorion hanes ieithyddol') (Paul, 1880), dadleuodd bod pob cenhedlaeth o blant yn gorfod creu rheolau eu iaith o'r newydd. Gallant ddysgu i gyfathrebu'n llwyddiannus hyd yn oed os yw eu rheolau yn wahanol mewn manylion i'r rhai a ddefnyddid gan yr oedolion (a'r plant eraill) o'u cwmpas, ac felly o bosib gyflwyno cyfnewidiadau i'w iaith heb yn wybod iddynt eu hunain. Ni ailgydiwyd yn y syniad hwn tan y 1970au, pan ddefnyddiodd Andersen (1973) yr un syniad i awgrymu bod plant yn gyfrifol am greu rheolau newydd ac felly cyflwyno cyfnewidiadau i'w iaith frodorol. Ychydig yn ddiweddarach, cafodd y syniadau hyn eu cynhwyso i gynnwys newid cystrawennol, er enghraifft, i esbonio cyfnewidiadau mewn cystrawen berfau Saesneg ers cyfnod Hen Saesneg (Lightfoot, 1979, 1991; Roberts, 1993).

Serch hynny, yn nyddiau cynnar gwaith ffurfiol, tueddid i fychanu gwahaniaethau o fewn iaith unigol, gan weld unigolyn delfrydol oedd yn byw mewn cymuned ieithyddol unffurf fel ffocws gwaith yr ieithydd, yr 'ideal speaker-listener, in a completely homogeneous speech-community, who knows its language perfectly' chwedl Chomsky (1965: 3). Ond erbyn y 1990au, roedd ieithyddion ffurfiol wedi troi i astudio amrywiaeth rhwng ieithoedd neu dafodieithoedd oedd yn perthyn yn glòs i'w gilydd er mwyn darganfod terfynau beth oedd yn bosib mewn iaith, mewn math o arbrawf lle gellir cadw popeth yr un

heblaw am un nodwedd wrth gymharu un dafodiaith â'r un nesaf. Mae'r gwaith hwn wedi parhau ar raddfa fwy uchelgeisiol a mwy ymarferol ym mlynnyddoedd cynnar yr 21ain ganrif, gyda nifer o atlasau yn cofnodi amrywiaeth gystrawennol mewn ieithoedd Ewropeaidd megis y *Syntactische atlas van de Nederlandse dialecten* ('Atlas cystrawennol tafodieithoedd yr Iseldireg') (Barbiers et al., 2005, 2008), *Dialektsyntax des Schweizerdeutschen* ('Cystrawen dafodieithol Almaeneg y Swistir') (Glaser a Bart, 2011) ac atlasau rhanbarthol tebyg yn yr Almaen, yr *Atlante sintattico dell'Italia settentrionale* ('Atlas cystrawennol gogledd yr Eidal') (Benincà a Poletto, 2007), y *Nordic Dialect Corpus* (Johannessen et al., 2009) a'r *Syntactic Atlas of the Basque Language* (Etxepare, 2009). Mae'r prosiectau hyn yn darparu ystod eang o wybodaeth am dafodieithoedd Ewrop, gwybodaeth fydd yn ein galluogi ni i ymchwilio pam bod sustemau gramadegol newydd yn ymddangos a sut maen nhw'n lledu yn ddaearyddol ac o un cyd-destun ieithyddol i'r llall.

3 CYSTRAWEN TAFODIEITHOEDD YNG NGHYMRU

Mae prosiect Atlas Cystrawen Tafodieithoedd y Gymraeg yn ceisio pennu maint yr amrywiaeth mewn cystrawen yr iaith er mwyn cyfrannu at y gorchwylion hynny. I wneud hyn, mae'n adeiladu ar waith blaenorol, yn enwedig y ddau atlas ieithyddol a grëwyd dan arweinyddiaeth Alan Thomas. Trown nawr i edrych ar ddyluniad y prosiectau hyn, a sut mae'r atlas cystrawennol yn gwyro oddi wrth y patrwm a sefydlwyd ganddynt.

Ymdrech cyntaf i wneud gwaith cymharol ar raddfa eang drwy greu atlas o dafodieithoedd y Gymraeg oedd y *Linguistic Geography of Wales* (A. Thomas, 1973). Dilynwyd dull oedd wedi dod yn draddodiadol mewn gwledydd eraill erbyn hyn, sef dewis rhwydwaith o leoliadau dros y wlad a chysylltu ag un person oedrannus ym mhob un lleoliad y tebygid bod eu iaith yn adlewyrchu tafodiaith draddodiadol yr ardal. Casglwyd data ar gyfer y *Linguistic Geography of Wales* o 180 o leoliadau gan ddefnyddio holiadur â phwyslais trwm ar amrywiaeth eirfaol. Anfonwyd yr holiadur allan drwy'r post i arbed amser ac arian. Rhoddwyd disgrifiadau o eitemau geirfaol yn Gymraeg a'u cyfystyron Saesneg, a gofynnwyd i ymgynghorwyr ysgrifennu geiriau neu ymadroddion lleol yn cyfateb iddynt. Ym mhob lleoliad, daethpwyd o hyd i berson addysgedig lleol i oruchwylio y siaradwr neu siaradwyr lleol oedd yn cyflawni'r holiadur. Dim ond pum cwestiwn a ofynnwyd oedd yn ymwneud yn fras â chystrawen:

- (1) ‘**these** books’ (*y llyfrau rheini* ayyb.)
 ‘to go **with** him’ (*efo neu gyda*)
 ‘**Is** John in?’ (*ydi, yw neu odi*)
 ‘He is **not** here’ (*Tydi o ddim..., Dyw e ddim..., neu S(a)no fe*)
 ‘**He** is the one I want to see’ (*fo/fe*)

Mae’n debyg nad oedd y cwestiwn (olaf ond un) ar negyddu yn effeithiol iawn, gan iddo fethu â dod o hyd i ffurfiau-*s* (*smo, so, sana* ayyb.) y tu allan i Sir Benfro (A. Thomas, 1973: 543).

Ail ymdrech i gofnodi amrywiaeth ddaearyddol y Gymraeg oedd y *Welsh Dialect Survey*. Cynhaliwyd y gwaith maes ar ei gyfer rhwng 1991 a 1995, gan arwain at gyhoeddiad llyfr yn cynnwys y data (ond heb fapiau) ym 2000. Aethpwyd drwy holiadur yn cynnwys 726 o eitemau gyda siaradwyr unigol mewn 117 o leoliadau (er i ambell i aelod ychwanegol o’r teulu gymryd rhan weithiau). Daeth y siaradwyr o’r to hŷn, ac roedd ganddynt nifer isel o addysg ffurfiol a chysylltiadau cryf â’r ardal leol (A. Thomas, 2000: xiv). Bu dau weithiwr maes yn cwblhau’r prosiect ar lafar, un ym mhob cyfweiliad. Roedd yr holiadur yn bennaf yn ymwneud â seineg a ffonoleg eitemau geirfaol unigol, ond roedd ychydig o gwestiynau ar gystrawen a morffoleg. Ymysg y pynciau oedd yn fwyaf perthnasol i gystrawen oedd:

- (2) cytundeb o ran cenedl ar ansoddeiriau (*afon ddofn* neu *ddwfn, het gron* neu *grwn* ayyb.)
 cytundeb o ran rhif ar ansoddeiriau (*pobl ifanc* neu *ifainc, ffynhonnau sych* neu *sychion*)
 ffurfiau cyfartal ansoddeiriau (*cyn ddued* neu *mor ddu*)
 rhagenwau blaen ar ferfenwau (*paid â fy mhoeni* neu *paid poeni (f)i* ayyb.)
 treigladau ar ôl yr arddodiad lleol yn (*yng Nghaerdydd* neu *yn Gaerdydd*)
 defnydd o’r treiglad llaes (*ei thad* neu *ei tad, ei chath* neu *ei cath, ei mam* neu *ei mham*)
 treigladau ar ôl y rhifolion *saith* ac *wyth*
 ffurfiau rhagenwau (rhagenw trydydd person unigol gwrywaidd *fe* neu *fo*; rhagenw ail berson unigol *ti, chdi* neu *thdi*)
 ffurfiau geirynnau ffocws (*taw, mai* neu *na*)

Tra bod y *Welsh Dialect Survey* yn cwmpasu detholiad o amrywiaeth gystrawennol sy’n ehangach ac yn fwy uchelgeisiol o lawer na’r *Linguistic Geography of Wales*, nid oedd gan yr un na’r llall bwyslais arbennig ar gystrawen, a’r *Welsh Dialect Survey* yn canolbwyntio ar seiniau a ffonoleg, a’r *Linguistic Geography of Wales* yn canolbwyntio ar eirfa. Fe allwn weld

dosbarthiad daearyddol ffurfiau unigol ond mae'n anodd gweld y sustem tu ôl i'r ffurfiau gan na ofynnwyd ond un cwestiwn am y rhan fwyaf o'r nodweddion cystrawennol o ddiddordeb.

4 ATLAS CYSTRAWEN TAFODIEITHOEDD Y GYMRAEG

Mae ymchwil Atlas Cystrawen Tafodieithoedd y Gymraeg yn adeiladu ar waith yr atlasau Cymraeg blaenorol, ond, yn sgil y drafodaeth uchod, mae'n ehangu ein golygfa i gynnwys yr holl gymuned Gymraeg ac i fynd i'r afael â chwestiynau o ddiddordeb cyffredinol sy'n mynd at graidd mecanwaith newid cystrawennol. Cynhaliwyd prosiect peilot o fis Ionawr 2012 tan Awst 2013 i ddatblygu methodoleg fyddai'n ddigonol. Fel mewn prosiectau cynharach, prif fethodoleg yr atlas yw holiadur ieithyddol, ond mae ffurf y cwestiynau wedi'i haddasu i gasglu data cystrawennol. Yn y cyfweiliad, mae'r gweithiwr maes yn darllen cyfres o eitemau sy'n cynnwys dwy frawddeg, yr ail yn cynnwys nodwedd neu nodweddion o ddiddordeb ieithyddol. Pwrpas y frawddeg gyntaf yw darparu cyd-destun lle byddai'r ail frawddeg yn briodol o ran ystyr. Gofynnir i siaradwyr ailadrodd yr ail frawddeg yn cadw'r ystyr yr un ond mewn ffordd naturiol iddyn nhw eu hunain, gan newid y frawddeg os oedd angen. Er enghraifft, mae brawddeg (3) yn profi dosbarthiad y geiryn ffocws gofynnol *ai*:

(3) Mae hynny'n syniad da iawn. Ai ti feddyliodd amdano fo gynta?

Mae'r siaradwr yn ailadrodd yr ail frawddeg, naill ai'n cadw *ai* neu'n ei ddileu. Fel atebion cafwyd er enghraifft:

(4) Ti feddyliodd am hynna gynta?

Ti haru feddwl amdano gynta?

Ti gath y syniad gynta?

Chdi feddyliodd amdano fo?

Mae'r atebion hyn i gyd yn cyfrif fel achosion o ddileu *ai*, er bod y siaradwyr yn anghytuno yn eu hatebion am agweddau eraill ar y frawddeg. Os yw holl strwythur y frawddeg yn ddieithr i'w iaith lafar naturiol, maen nhw'n rhydd i newid y frawddeg yn llwyr drwy aralleirio i gyfleu'r un ystyr. Os oes mwy nag un opsiwn ar gael, cyflwynir pob un o'r opsiynau i'r siaradwr mewn brawddegau gwahanol. Yn yr achos hwn, mae eitem gyfatebol lle mae'r gweithiwr maes yn cynnig brawddeg heb *ai* i weld a fydd y siaradwr yn ei ychwanegu:

(5) Mae rhywun 'di gadael beic tu allan. Chdi sy biau fe?

Yn y ffordd hon, cawn wirio i ba raddau mae siaradwyr yn ailadrodd yn ddifeddwl, gan ailadrodd popeth mae'r gweithiwr maes yn ei ddweud yn ffyddlon. Os ydynt yn ychwanegu rhywbeth, gallwn fod yn weddol sicr bod yr ychwanegiad yn adlewyrchu eu iaith lafar naturiol.

Gan fod yr ail frawddeg yn profi dosbarthiad nodweddion ieithyddol, yn aml iawn mae'n cynnwys ffurfiau y gellid eu dychmygu ond sydd, yn ôl pob tebyg, ddim yn bodoli mewn unrhyw dafodiaith, neu gyfuniadau o ffurfiau sy byth yn ymddangos gyda'i gilydd yn yr un dafodiaith. Disgwylir i siaradwyr newid y brawddegau hyn i gyfateb i'w ffurfiau eu hunain. Dyna ffordd arall i wirio bod y siaradwr yn gwneud y gorchwyl yn iawn heb fod yn 'or-gydweithredol' a chytuno â phopeth mae'r gweithiwr maes yn ei gynnig.

Dewisir siaradwyr o bob oedran i wneud cyfweiliadau ar gyfer yr holiadur. Cynhwysir unrhyw un ddechreuodd caffael y Gymraeg mewn ffordd naturiol o 5 mlwydd oed neu'n iau, ac sy'n siarad yr iaith yn gyson yn eu bywyd beunyddiol ers hynny. Mae'r amodau hyn yn cynnwys pobl a gafodd eu magu ar aelwydydd di-Gymraeg ac a ddysgodd yr iaith mewn ysgol feithrin neu ysgol gynradd ymlaen. Mae'n cau allan pobl a ddysgodd y Gymraeg fel ail iaith mewn dosbarthiadau fel rhan o wersi ffurfiol. Drwy gynnwys siaradwyr 'di-draddodiadol' fel hyn, cawn ymchwilio effaith adfywiad yr iaith yn y sustem addysg a dylanwad y Saesneg yn fwy cyffredinol.

Mae holiadur llawn y prosiect peilot yn cynnwys 60 o gwestiynau. Mae cyfranogwyr yn rhoi atebion i 34 o frawddegau sy'n gyffredin i'r holl wlad, tra bod yr holiadur hefyd yn cynnwys 24 o frawddegau sy'n berthnasol naill ai i'r gogledd neu i'r de yn unig. Yn ogystal â'r 58 cwestiwn hyn, defnyddiwyd dau gwestiwn i roi cyfle i gyfranogwyr ymarfer a chael cymorth i ddeall beth oedd rhaid iddynt ei wneud. Mae cwestiynau ar bynciau gwahanol wedi'u cymysgu a'u dosbarthu ar wasgar dros yr holiadur, fel nad yw'n amlwg beth yw pwrpas pob cwestiwn unigol. Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda 96 o bobl yn y gogledd, a tua'r un nifer yn y de.

5 CAU FEL BERF FODDOL NEGYDDOL YN NHAFODIEITHOEDD Y GOGLEDD

Yn adran ola'r papur hwn, gwelwn sut mae gwaith yr atlas yn ein galluogi i weld newid ar y gweill mewn tafodieithoedd heddiw, gan ddefnyddio rhai o ganlyniadau gwaith maes y gogledd. Fe fyddwn yn olrhain datblygiad berf foddol newydd, sef *cau* 'ddim eisiau, wnaiff

ddim' dros y ganrif ddiwethaf, gan ystyried data o waith maes yr atlas yng nghyd-destun gwybodaeth arall o ffynonellau ysgrifenedig.

Mae rhai tafodieithoedd gogleddol y Gymraeg yn defnyddio *cau*, gair sy'n tarddu'n hanesyddol o ffurf gywasgedig berf a geir yn yr iaith lenyddol fel *nacáu* 'gwrthod', fel berf foddol negyddol. Mae ganddi ystyr moddol sy'n cyfleu'r syniad bod gan y goddrych ryw rinwedd (boed hynny'n barhaol neu dros dro) sy'n atal gweithrediad y brif ferf:


- (6) Mae'r drws (yn) cau agor.
'Wnaiff y drws ddim agor.'

Gofynnwyd un cwestiwn am hynny yn y *Welsh Dialect Survey* (A. Thomas, 2000). Darlunir dosbarthiad daearyddol y ferf ar sail yr arolwg hwnnw ar y map yn Ffigwr 1. Fel gyda llawer o nodweddion tafodieithol eraill y Gymraeg, mae'r dosbarthiad yn adlewyrchu'r prif ymraniad rhwng y gogledd a'r de. Cyfyngir *cau* i'r gogledd, ac ni ddefnyddir mohoni yn nhafodieithoedd y de o gwbl.

Mae methodoleg y *Welsh Dialect Survey* yn gofyn i'r gweithiwr maes roi disgrifiad i geisio annog y siaradwr i gynhyrchu'r ffurf briodol, heb ofyn yn uniongyrchol. Weithiau, os yw'r siaradwr yn methu ateb, mae'n gofyn yn uniongyrchol. Mae'r canlyniadau felly'n gwahaniaethu rhwng pobl oedd yn methu ateb (smotiau gwyn ar y map) a'r rhain oedd yn gwrthod derbyn *cau* fel rhan o'u iaith hyd yn oed pan ofynnodd y gweithiwr maes yn uniongyrchol gan enwi'r gair (smotiau du ar y map).

Er bod y *Welsh Dialect Survey* yn dangos dosbarthiad y ffurf ei hun yn y genhedlaeth hynaf ar y pryd, nid oedd yn gofyn am nodweddion cystrawennol y ferf (ym mha fath o frawddegau y gallai ymddangos). Nid oedd modd darganfod a oedd gwahaniaethau rhwng y cenedlaethau chwaith. Fel y gwelwn yn y man, mae gwahaniaethau pwysig rhwng tafodieithoedd yn hyn o beth, a dyna'r math o wybodaeth y gallwn ei ddisgwyl o ymchwiliad trylwyr mewn atlas cystrawen.

Cyn edrych ar y data o'r gwaith maes ei hun, mae angen rhoi'r ferf yn ei chyd-destun hanesyddol i ddarganfod pa fath o batrymau y dylid chwilio amdanynt mewn astudiaeth ar amrywiaeth gystrawennol. Mae tystiolaeth hanesyddol o ddeialog mewn nofelau yn awgrymu na chafodd y ferf *cau* mo'i defnyddio yn yr ystyr hwn yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, er i'r cywasgiad seinegol ei hun ymddangos yn aml mewn testunau o'r cyfnod. 'Gwrthod' yw'r ystyr yma; hynny yw, penderfyniad ymwybodol gan oddrych sy'n gweithredu yn ôl ei ewyllys ei hun, fel yn yr enghraifft ganlynol o waith Daniel Owen:



Ffigur 1. Dosbarthiad daearyddol *cau* ‘gwrthod’ yn ôl data o’r *Welsh Dialect Survey* (A. Thomas, 2000).

- (7) Beth os bydd y cathod yn 'cau dwad!

'Beth os bydd y cathod yn gwrthod dod!' (Daniel Owen, *Hunangofiant Rhys Lewis*, t. 278) (gol. 1885)

Mae ystyr a chystrawen y ferf wedi ehangu erbyn heddiw. I ddechrau, rhaid gwneud gwahaniaeth semanteg rhwng ystyron lle mae'r goddrych yn fywiol, yn cyfateb i berson neu greadur byw a all benderfynu cyflawni gweithred y ferf neu beidio, ac ystyron lle taw amgylchiadau ar y pryd neu nodweddion cynhenid y goddrych sy'n cyfyngu gweithrediad y ferf. Defnyddir *cau* yn yr ail ffordd heddiw gan lawer o siaradwyr, rhywbeth sy'n adlewyrchu cyfnewidiad o ddechrau'r 20fed ganrif. Yn yr enghraifft ganlynol, dyw'r ewinedd ddim yn penderfynu peidio dod yn rhydd; mae rhyw rinwedd ganddynt sy'n atal y dŵr rhag gweithio:

- (8) Rhoi'r adenydd mewn dŵr berwedig eto os yw'r ewinedd yn cau dod yn rhydd.

(<http://www.cimwch.com/bwyd/bwyd.htm>, ymwelwyd 29 Hydref 2013)

O ran cystrawen, mae gwahaniaethau pwysig rhwng patrymau gyda chytgord negyddol a'r rhai hebddo. Cymerwn enghreifftiau arferol o gytgord negyddol yn y Gymraeg i ddechrau. Mae brawddeg (9) yn enghraifft o frawddeg gadarnhaol heb ddim elfen negyddol ynddi. I'w negyddu, disodlir y rhagenw amhenodol *rhywun* gan ragenw amhenodol negyddol *neb*, ond rhaid hefyd newid ffurf y ferf gynorthwyol o *mae* i *dydi* (neu *dyw* yn y de) ac ychwanegu'r geiryn neu adferf negyddol *ddim* ar ôl y goddrych *Aled*. Mae'r ferf felly yn cytuno ag elfen negyddol arall mewn patrwm o gytgord negyddol.

- (9) **Mae** Aled yn helpu **rhywun**.

- (10) **Dydi** Aled **ddim** yn helpu **neb**.

Mae rheolau cytgord negyddol yn y Gymraeg yn gymhleth (gweler Borsley a Jones 2005 a Borsley, Tallerman a Willis 2007: 263–75 am fanylion). Weithiau, gydag elfen amhenodol fel *neb*, rhaid mynegi cytgord negyddol drwy newid ffurf y ferf ac hefyd drwy ychwanegu *ddim*, fel yn enghraifft (10) uchod; ar brydiau eraill, mae cytgord ar y ferf yn unig yn ddigonol heb *ddim*:

(11) Does neb yn helpu Aled.

Mae'r rheolau yn dibynnu ar safle'r elfennau mewn perthynas â'i gilydd. Gyda *neb* fel goddrych, yn (11), does dim rhaid ychwanegu *ddim*; ond pan fo'n wrthrych gyda berf gynorthwyol mewn patrwm cwmpasog, fel a welwyd yn (10), mae *ddim* yn orfodol.

Ar sail tystiolaeth yr enghreifftiau sydd wedi'u cyflwyno hyd yma, byddid yn dod i'r casgliad nad yw *cau* yn cymryd rhan yn y sustem o gytgord negyddol. Ffurf y ferf gynorthwyol yn (6) oedd *mae* yn hytrach na *dydi*, y ffurf a ddisgwyliid pe bai cytgord negyddol yn berthnasol. Ond nid dyna yw'r unig opsiwn yn yr iaith lafar heddiw. Ceir hefyd enghreifftiau lle mae berf gynorthwyol yn cymryd ffurf negyddol er mai *cau* yw'r unig elfen arall yn y frawddeg a allai fod yn negyddol:

(12) **Tydi** ffon fi cau gweithio...

(<http://twitter.com/#!/SionGO/statuses/73115057822773248>, ymwelwyd 29 Hydref 2013) (siaradwr o Benygroes, Gwynedd)

Mae *cau* felly yn ymddangos mewn dwy gystrawen, un gyda chytgord negyddol ac un hebddo. Mae'r patrwm heb gytgord yn hŷn: mae hynny'n glir oddi wrth darddiad hanesyddol y gair, o ferf (gadarnhaol) *nacáu* 'gwrthod', a dyna hefyd a geir yn yr enghreifftiau cynharaf.

Yn yr enghraifft hon, yr unig beth sy'n cytuno â *cau* o ran negyddu yw'r ferf gynorthwyol *tydi*; hynny yw, does dim geiryn negyddol *ddim*. Byddaf yn cyfeirio at hynny fel cytgord negyddol 'gwan'. Mae tystiolaeth brawddegau fel (12) yn awgrymu bod *cau* wedi dod yn rhan o'r sustem negyddol i rai siaradwyr, gan ei fod yn achosi cytgord negyddol. Fel y gwelwn o ddata'r atlas, mae'r patrwm yma'n gyffredin iawn dros rannau helaeth o'r gogledd. Mae patrwm arall yn llai cyffredin ond eto ar gael i nifer fechan o siaradwyr. Dyna batrwm cytgord negyddol 'cryf', gyda dwy elfen negyddol yn ogystal â *cau*:

(13) **dodd o ddim** yn **cau** gweithio...

(<http://www.bebo.com/Profile.jsp?MemberId=2782943827>, ymwelwyd 29 Hydref 2013) (siaradwraig o Benygroes, Gwynedd)

Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos bod *cau* yn gallu achosi cytgord negyddol mewn rhai tafodieithoedd. Gyda rhagenw amhenodol fel *neb*, mae hefyd yn gallu ymddangos fel ymateb

i elfen arall sy'n achosi'r cytgorf. Dyna a geir mewn brawddeg fel (14), sy'n cyfateb i frawddeg gadarnhaol fel (15).

- (14) Oddna **neb cau dod** efo fi! (<http://www.bebo.com/Profile.jsp?MemberId=8930611124>, ymwelwyd 30 Hydref 2013) (siaradwraig o Bentreuchaf, Gwynedd)
- (15) Oddna rywun isio dod efo fi.

Mae brawddegau fel y rhain yn awgrymu y gall *cau* gael ei defnyddio fel ffurf negyddol ar *isio* 'eisiau' mewn cyd-destun negyddol. Mae *cau* hefyd yn ddigonol i gyflawni rôl *ddim* mewn cyd-destun lle mae cytgorf negyddol cryf yn orfodol. Cymerwch frawddegau (16) a (17) fel enghraifft. Dyma gyd-destun cytgorf negyddol cryf: mae *dim byd* yn wrthrych i ferf gwmpasog *oedden ... yn gwneud* (cymharer (10) uchod, lle mae *ddim* yn orfodol yn yr un cyd-destun). Felly mae *ddim* yn orfodol, fel y gwelir oddi wrth y gwahaniaeth rhwng (16), sydd yn annerbyniol heb *ddim*, a (17), sydd yn dderbyniol gan fod *ddim* yn ei briodol le.

- (16) *(D)oedden nhw'n gwneud dim byd.
- (17) (D)oedden nhw **ddim** yn gwneud dim byd.

Os disodlir *ddim* gan *cau* yma, mae'r frawddeg yn dderbyniol o hyd, ffaith sy'n awgrymu eto bod *cau* yn rhan o'r sustem negyddol yn y tafodieithoedd hyn, a'i fod yn gallu fod yn ymateb i gytgorf negyddol yn ogystal â'i achosi:

- (18) oedden nhw **cau** neud dim byd (stammers8) (corpws Siarad; Deuchar a Davies, 2009)

6 CAU YN HOLIADUR ATLAS CYSTRAWEN TAFODIEITHOEDD Y GYMRAEG

Trown nawr at ddata holiaduron yr *Atlas* i weld beth yw dosbarthiad daearyddol presennol yr opsiynau hynny, ac i drio esbonio sut mae'r dosbarthiad hwnnw wedi datblygu'n ddiweddar. Cynhwyswyd pum cwestiwn am gystrawen *cau* yn holiadur yr atlas gan ddilyn methodoleg arferol y prosiect fel a ddisgrifiwyd uchod.

Roedd tri chwestiwn yn anelu at ddarganfod patrymau sylfaenol cytgorf negyddol gyda *cau*. Felly, cynigiwyd y tri opsiwn perthnasol, sef brawddeg heb gytgorf negyddol (19) (*mae ... cau*), brawddeg gyda chytgorf negyddol gwan (20) (*dydy ... cau*), a brawddeg gyda chytgorf negyddol cryf (21) (*dydy ... ddim ... cau*).

- (19) Well i ni ffonio'r garej. **Mae** dy gar chdi'n **cau** cychwyn. (brawddeg 16)
- (20) Alla i ddim eu ffonio nhw. **Dydy** dy ffôn di **cau** gweithio. (brawddeg 17)
- (21) Bydd rhaid ni fynd at ffrindiau i wylïo'r ffilm. **Dydy** ein teledu ni **ddim** yn **cau** gweithio. (brawddeg 41)

Roedd y brawddegau hefyd yn gofyn am nodweddion eraill sy ddim yn berthnasol i'r drafodaeth bresennol (yn fwyaf amlwg, y defnydd o *chdi*). Mae cymysgedd y nodweddion ieithyddol yn (19) yn ei gwneud hi'n annhebyg y byddai neb yn gallu defnyddio'r frawddeg fel y mae, felly disgwylid y byddai bron pawb yn gorfod ei newid. Mae hyn wrth gwrs yn gyson â rhesymeg y fethodoleg uchod.

Roedd y siaradwyr felly yn rhydd ym mhob achos i wrthod *cau* yn gyfan gwbl drwy aralleirio'r frawddeg (e.e. *Neith dy gar di ddim cychwyn yn lle* (19)). Gallent hefyd naill ai derbyn y gystrawen drwy ei ailadrodd yn ffyddlon, neu newid patrwm y cytgordd (e.e. drwy ailadrodd (20) fel *Mae dy ffôn di'n cau gweithio*).

Mae un cwestiwn yn ymchwilio'r defnydd o *cau* gyda rhagenw amhenodol fel *neb* (cymharer (14) uchod):

- (22) Dwi'n gorfod aros gartre heno. **Does neb** yn **cau** dod allan efo fi. (brawddeg 42)


Mae'r cwestiwn olaf yn gofyn a ellir hepgor berf ar ôl *cau*:

- (23) Dwi 'di gofyn i Aled eu ffonio nhw yn barod. Ond tydi o dal **cau**. (brawddeg 34)
- '... Ond mae e dal heb wneud. / Ond wnaiff e ddim o hyd.'

Mae llawer o siaradwyr (yn enwedig ymysg pobl ifainc) yn gallu hepgor berf ar ôl geirynnau, gan gynnwys y geirynnau agwedd, megis y geiryn parhaol *yn* a'r geiryn perffaith *wedi*, a'r geiryn traethiadol *yn*. Dyma enghraifftiau lle hepgorir berf (*gwneud* neu *ferf* debyg) ar ôl yr elfennau hynny; enghreifftiau i gyd o Gorpws Siarad (Deuchar a Davies, 2009):

- (24) Fyswn, sw'n i yn. (davies2)
- (25) Mae na rywun wedi, sti. (fusser27)
- (26) A: O mae (r)hein yn neis.
B: Mae nhw *really* yn. (davies12)


Pwrpas y cwestiwn felly oedd darganfod a oedd *cau* yn dechrau ymddwyn fel geirynnau agwedd a'r geiryn traethiadol ac felly'n gallu sefyll ar ei ben ei hun ar ddiwedd brawddeg a'r ferf ar ei ôl wedi'i hepgor. Er bod hyn yn naturiol i rai siaradwyr, roedd siaradwyr eraill yn methu deall y frawddeg hon, a chynigiwyd cyfieithiad Saesneg weithiau os oedd angen. Gallai siaradwyr dderbyn y frawddeg drwy ei hailadrodd yn ffyddlon, neu ei gwrthod drwy ychwanegu berf yn ôl y cyd-destun (e.e. *Tydi o cau ffonio*) neu ychwanegu berf gyffredinol (*Tydi o cau neud*). Os nad oedden nhw'n hapus gyda *cau* o gwbl, gallent aralleirio'r frawddeg gan ddileu *cau* yn gyfan gwbl (e.e. *Tydi o ddim wedi (neud)*).



Ffigwr 2. Cytgord negyddol gyda *cau* (siaradwyr a anwyd cyn 1964).

Defnyddiwyd yr atebion i gwestiynau'r holiadur i bennu sustem cytgord negyddol pob siaradwr. Cafodd 96 o siaradwyr eu holi yn y gogledd. Rhannwyd y siaradwyr yn ddwy garfan yn ôl oedran: siaradwyr a anwyd cyn 1964 (yn fras, pobl dros 50) (54 o siaradwyr) a siaradwyr a anwyd o 1964 ymlaen (yn fras, pobl dan 50) (42 o siaradwyr). Pwrpas hyn oedd darganfod os oedd newid wedi bod ar y gweill yn y gorffennol diweddar, a'r patrwm newydd gyda chytgord negyddol yn fynychach gyda siaradwyr iau ac felly'n lledu dros amser. Mae Ffigwr 2 yn dangos y grŵp hŷn, a Ffigwr 3 yn dangos y grŵp iau. Mae pob cylch yn

adlewyrchu un person, yn ôl y lleoliad lle cafodd eu magu (sy'n gallu bod yn wahanol i'r lleoliad lle maent yn byw nawr).




Ffigwr 3. Cytgord negyddol gyda *cau* (siaradwyr a anwyd o 1964 ymlaen).

Fel y gellir gweld oddi ar y ffigyrau hyn, roedd y rhan fwyaf o siaradwyr (80%, 77 allan o 96) o bob oedran yn derbyn *cau* mewn un frawddeg o leiaf. Serch hynny, mae cymhariaeth o'r ddwy garfan yn darlunio patrwm a datblygiad clir. Ceir cytgord negyddol gyda *cau* dros ardal ddaearyddol fwy o lawer ymysg y garfan iau. Er bod cylchoedd coch neu binc, yn mynegi bod y siaradwr wedi defnyddio cytgord negyddol yn yr holiadur unwaith o leiaf, i'w gweld dros rannau helaeth o'r gogledd gyda'r siaradwyr hŷn mewn Ffigwr 2, lleiafrif ydyn nhw ar y cyfan (18 allan o 54, hynny yw, 33%), a'r siaradwyr gyda'r patrwm newydd hwn yn ymddangos mwy neu lai ar hap dros yr ardal berthnasol. Ymysg y to iau, heblaw am Ben Llŷn ac (efallai) Ynys Môn, sy'n glynu at y patrwm ceidwadol, defnyddir cytgord negyddol yn gyffredin: mae tua'r hanner (20 allan o 42, hynny yw, 48%) wedi mabwysiadu cytgord negyddol, a llinell yr isoglos yn hollti'r ddwy ardal yn weddol glir. Dros hynny, mae'r genhedlaeth iau yn fwy hyderus i ddewis cytgord negyddol: ymysg y grŵp hŷn,


dim ond 11% (6 allan o 54) ddefnyddiodd cytgordd negyddol yn unig, tra bod 36% (15 allan o 42) ymysg y grŵp iau yn gwneud hyn. Mae'r data felly'n dangos newid ar y gweill yn glir.

Os edrychwn nawr ar yr ail gwestiwn dan sylw, i ba raddau mae siaradwyr yn defnyddio *cau* gyda rhagenw amhenodol fel *neb* yn (22), gwelwn newid ar y gweill eto, ond ar raddfa lai. Ymysg y genhedlaeth hŷn (Ffigwr 4), defnyddiwyd *cau* gyda *neb* gan 6 siaradwr (11%); ymysg y genhedlaeth iau (Ffigwr 5), fe'i defnyddiwyd gan 9 siaradwr (21%). Unwaith eto, mae'r dosbarthiad daearyddol yn gliriach ymysg y siaradwyr iau, ac mae ardal wedi datblygu o gwmpas Caernarfon a Llanberis lle y'i derbyniwyd yn gyson.



Ffigwr 4. *Cau* gyda'r rhagenw amhenodol negyddol *neb* (siaradwyr a anwyd cyn 1964).

Anaml y derbyniwyd *cau* ar ddiwedd brawddeg, (23) uchod. Ond eto, mae haenau yn ôl oedran i'w canfod yma eto. Dim ond 3 siaradwr a anwyd cyn 1964 dderbyniodd y patrwm hwn (6%), ond fe'i derbyniwyd ddwywaith mor aml gan y siaradwyr iau (7 siaradwr, 17%).



Ffigwr 5. *Cau* gyda'r rhagenw amhenodol negyddol *neb* (siaradwyr a anwyd o 1964 ymlaen).

Dim ond un cyfranogwr, siaradwr o Gaernarfon yn ei ugeiniau, dderbyniodd y patrwm gyda chytgord negyddol 'cryf', (21) uchod. Er bod y gystrawen hon mor anaml yn ôl data'r holiadur, roedd yr unig siaradwr a'i defnyddiodd yn hunan-gyson, gan ychwanegu *ddim* at frawddeg 16, (27) isod, yn ogystal â chadw brawddeg 41, (28) isod, yn y ffordd yr oedd y gweithiwr maes wedi ei chynnig.

(27) Di'r car ddim cau cychwyn. (siaradwr gwynedd_14, brawddeg 16)

(28) Di teledu ni ddim yn cau gweithio. (siaradwr gwynedd_14, brawddeg 41)

Mae cysondeb yr atebion hyn felly'n awgrymu y gallai hynny adlewyrchu cyfeiriad posib y datblygiad yn y dyfodol.

Gan gasglu'r holl atebion at ei gilydd i weld sustemau gramadegol y siaradwyr yn eu cyfanrwydd, cawn rannu'r siaradwyr yn grwpiau llai yn ôl pa mor geidwadol y mae eu gramadegau. Mae siaradwyr grŵp 0, sy ddim yn defnyddio *cau* o gwbl, yn sefyll tu allan i'r datblygiad hanesyddol: maen nhw naill ai'n siarad tafodieithoedd na fabwysiadodd *cau* yn y

lle cyntaf, neu'n siarad tafodieithoedd lle nad yw *cau* wedi'i drosglwyddo'n ffyddlon dros y cenedlaethau. Mae'r grwpiau eraill yn adlewyrchu'r datblygiad hanesyddol i ryw raddau. Sustem 1 yw'r un fwyaf ceidwadol, gan gadw at y gystrawen wreiddiol. Mae'r sustemau eraill yn adlewyrchu datblygiadau newydd sy'n dangos hynt a threfn y cyfnewidiad cystrawennol.

rhif y sustem	nodweddion y sustem	nifer siaradwyr
0	siaradwyr heb <i>cau</i> o gwbl	19
1	siaradwyr sy'n defnyddio <i>cau</i> ond heb gytgord negyddol yn unig	39
2	siaradwyr sy'n defnyddio <i>cau</i> gyda chytgord negyddol gwan yn opsiynol (h.y. mae'r siaradwr yn ailadrodd brawddegau gyda chytgord negyddu ac hebddo yn ffyddlon)	9
3	siaradwyr sy'n defnyddio <i>cau</i> gyda chytgord negyddol gwan yn orfodol (h.y. mae'r siaradwr yn ychwanegu cytgord negyddol at frawddegau hebddo)	10
4	siaradwyr sy'n defnyddio <i>cau</i> gyda chytgord negyddol gwan ac hefyd gyda <i>neb</i> ond sy ddim yn derbyn <i>cau</i> ar ddiwedd brawddeg	9
5	siaradwyr sy'n defnyddio <i>cau</i> gyda chytgord negyddol gwan ac hefyd yn derbyn <i>cau</i> ar ddiwedd y frawddeg, ond sy ddim yn ei ddefnyddio gyda <i>neb</i>	5
6	siaradwyr sy'n defnyddio <i>cau</i> gyda chytgord negyddol gwan, gyda <i>neb</i> ac ar ddiwedd brawddeg	4
7	siaradwyr sy'n derbyn popeth uchod ac hefyd yn defnyddio cytgord negyddol cryf	1

Tabl 1. Sustemau gramadegol *cau* yn ôl data holiadur *Atlas Cystrawen Tafodieithoedd y Gymraeg*.

Mae perthynas hanesyddol rhwng rhai o'r datblygiadau hyn. Mewn rhai achosion, os yw datblygiad yn bresennol yng ngramadeg y siaradwr, mae pob datblygiad blaenorol yn bresennol hefyd:

- (29) dim cytgord negyddol > cytgord negyddol gwan > *cau* gyda rhagenwau amhenodol > cytgord negyddol cryf

Mae'r patrymau (synchronig) heddiw felly'n adlewyrchu trefn y datblygiad hanesyddol. Does dim perthynas tebyg gyda rhai eraill o'r datblygiadau. Er enghraifft, os yw siaradwr yn derbyn *cau* mewn brawddeg gyda rhagenw amhenodol, dyw ef neu hi ddim o anghenrheid yn derbyn *cau* ar ddiwedd brawddeg. Mae'r cystrawennau newydd hyn felly wedi datblygu'n annibynnol o'i gilydd. Mae hyn i gyd yn awgrymu bod ymddangosiad cyfnewidiadau ynghlwm wrth ddatblygiad cytgord negyddol yn rhan o un cyfnewidiad mawr, tra bod datblygiad *cau* ar ddiwedd y frawddeg yn annibynnol, wedi'i gysylltu â datblygiad y geirynnau eraill (*wedi, yn ayyb.*) yn yr iaith.

7 CASGLIADAU

Drwy ddefnyddio holiadur sy'n canolbwyntio ar amrywiaeth mewn cystrawen, cawn ymchwilio'r sustemau gramadegol y mae siaradwyr yn eu defnyddio i gynhyrchu eu iaith lafar feunyddiol. Mae'r papur hwn wedi dangos sut y gallai atlas cystrawennol gyfrannu at ein dealltwriaeth o sut mae strwythur y Gymraeg yn newid ar hyn o bryd, a sut mae rheolau gramadegau newydd yn ymddangos ac yn lledu mewn iaith yn fwy cyffredinol. Yn achos *cau*, rydym wedi darganfod cymhlethdod tu hwnt i'r dosbarthiad daearyddol syml y mae holiadur geirfaol, fel yr un y tu ôl i'r *Welsh Dialect Survey* (Ffigwr 1), yn gallu datgelu. Rydym wedi gweld bod siaradwyr yn defnyddio rheolau gwahanol gyda *cau*, bod rhai o'r rheolau hynny wedi datblygu'n ddiweddar, a bod cyfres o ddatblygiadau yn dilyn ei gilydd fel mae'r iaith yn symud tuag at sustem newydd. Rydym wedi defnyddio amrywiaeth ieithyddol yn ôl oedran i ddangos bod y rheolau newydd yn lledu. Fel maen nhw'n lledu, mae dosbarthiad tafodieithol cliriach yn datblygu: erbyn hyn, mae cytgord negyddol gyda *cau* yn nodweddiadol o ardal benodol yng nghanol y gogledd, tra bod ardaloedd yn y gorllewin pell a'r dwyrain pell yn glynu at y hen reol heb gytgord negyddol. Gellid disgwyl dod o hyd i amrywiaeth gystrawennol sy'n deillio o ffynonellau eraill, yn enwedig gwahaniaethau o achos gwahanol gefndiroedd ieithyddol, drwy ddadansoddi data o'r un math yn fanylach, a gellid estyn y fethodoleg hon i ymchwilio agweddau eraill ar gystrawen sy'n newid neu sy'n amrywio yn yr un ffordd ar hyn o bryd. Mae'r darlun cymhleth hwn yn un cwbl daearyddol a thafodieithol, ond un na ellid ei weld drwy ddulliau traddodiadol o astudio cystrawen tafodiaith.

CYFEIRIADAU

Andersen, Henning (1973), Abductive and deductive change. *Language* 49, 765–93.

- Barbiers, Sjef; Bennis, Hans; Vogelaar, Gunther de; Devos, Magda; a Ham, Margreet van de (2005), *SAND: Syntactische atlas van de Nederlandse dialecten: Deel I. Syntactic atlas of the Dutch dialects: Part I*. Amsterdam: Amsterdam University Press.
- Barbiers, Sjef; Auwera, Johan van der; Bennis, Hans; Boef, Eefje; Vogelaar, Gunther de; Devos; a Ham, Margreet van de (2008), *SAND: Syntactische atlas van de Nederlandse dialecten: Deel II. Syntactic atlas of the Dutch dialects: Part II*. Amsterdam: Amsterdam University Press.
- Benincà, Paola a Poletto, Cecilia (2007), The ASIS enterprise: A view on the construction of a syntactic atlas for the northern Italian dialects. *Nordlyd* 34, 35–52.
- Borsley, Robert D. a Jones, Bob Morris (2005), *Welsh negation and grammatical theory*. Caerdydd: University of Wales Press.
- Borsley, Robert D.; Tallerman, Maggie; a Willis, David (2007), *The syntax of Welsh*. Caergrawnt: Cambridge University Press.
- Chomsky, Noam (1965), *Aspects of the theory of syntax*. Cambridge, Mass.: MIT Press.
- Deuchar, Margaret a Davies, Peredur (2009), Code switching and the future of the Welsh language. *International Journal of the Sociology of Language* 195, 15–38.
- Etxepare, Ricardo (2009), On (some of) the uses of a syntactic atlas. *Tinta: E-journal of Hispanic and Lusophone Studies* 8, 1–24.
- Fynes-Clinton, O. H. (1913), *The Welsh vocabulary of the Bangor district*. Rhydychen: Oxford University Press.
- Gilliéron, Jules a Edmont, E. (1902–9), *Atlas linguistique de la France*. Paris: H. Champion.
- Glaser, Elvira a Bart, Gabriela (2011), Discovering and mapping syntactic areas: Old and new methods. Yn: Álvarez Pérez, Xosé Afonso; Carrilho, Ernestina; a Magro, Catarina (gol.), *Proceedings of the International Symposium on Limits and Areas in Dialectology (LimiAr)*. Lisbon: Centro de Linguística da Universidade de Lisboa.
- Johannessen, Janne Bondi; Priestley, Joel; Hagen, Kristin; Áfarli, Tor Anders; a Vangsnes, Øystein Alexander (2009). The Nordic Dialect Corpus: An advanced research tool. Yn: Jokinen, Kristiina a Bick, Eckhard (gol.), *Proceedings of the 17th Nordic Conference of Computational Linguistics NODALIDA 2009*, 73–80.
- Jones, Robert Owen (1986), Datblygiad gwyddor tafodieitheg yng Nghymru. *Bulletin of the Board of Celtic Studies* 33, 18–40.
- Labov, William (1978 [1972]), *Sociolinguistic patterns*. Rhydychen: Blackwell.
- Lightfoot, David W. (1979), *Principles of diachronic syntax*. Caergrawnt: Cambridge University Press.

- Lightfoot, David W. (1991), *How to set parameters: Arguments from language change*. Cambridge, Mass.: MIT Press.
- Morris, W. Meredith (1910), *A glossary of the Demetian dialect of north Pembrokeshire with special reference to the Gwaun Valley*. Tonypandy: Evans and Short.
- Orton, Harold (1962–71), *Survey of English dialects: The basic material*. Leeds: E. J. Arnold & Son.
- Osthoff, Hermann a Brugmann, Karl (1878), *Morphologische Untersuchungen auf dem Gebiete der indogermanischen Sprachen*, Rhan 1. Leipzig: S. Hirzel.
- Paul, Hermann (1880), *Prinzipien der Sprachgeschichte*. Halle: Max Niemeyer.
- Phillips, Vincent Howell (1955), *Astudiaeth o Gymraeg llafar Dyffryn Elái a'r cyffiniau*. Traethawd MA, Prifysgol Cymru, Caerdydd.
- Roberts, Ian G. (1993), *Verbs and diachronic syntax*. Dordrecht: Kluwer.
- Sommerfelt, Alf (1925), *Studies in Cyfeiliog Welsh: A contribution to Welsh dialectology*. Oslo: I Kommision hos J. Dybwad.
- Sweet, Henry (1884), Spoken North Welsh. *Transactions of the Philological Society* 19, 409–84.
- Thomas, Alan R. (1973), *The linguistic geography of Wales: A contribution to Welsh dialectology*. Caerdydd: University of Wales Press.
- Thomas, Alan R. (2000), *Welsh dialect survey*. Caerdydd: University of Wales Press.
- Thomas, Ceinwen H. (1993), *Tafodiaith Nantgarw: Astudiaeth o Gymraeg Llafar Nantgarw yng Nghwm Taf, Morgannwg*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Trudgill, Peter (1974), *The social differentiation of English in Norwich*. Caergrawnt: Cambridge University Press.
- Weinreich, Uriel; Labov, William; a Herzog, Marvin I. (1968), Empirical foundations for a theory of language change. Yn: Winfred P. Lehmann a Yakov Malkiel (eds.), *Directions for historical linguistics*, 95–195. Austin: University of Texas Press.
- Wenker, Georg; Martin, Bernhard; Mitzka, Walther; a Wrede, Ferdinand (1926–56), *Deutscher Sprachatlas*. Marburg (Lahn): N. G. Elwert.